

Adolygiad o Ailargraffiad *The Celtic Languages* gan Martin J. Ball a Nicole Müller (goln), Llundain: Routledge (785 o dudalennau)

Rhagair

Mae *The Celtic Languages* yn disgrifio'r ieithoedd Celtaidd, sef yr Wyddeleg, Gaeleg yr Alban, y Fanaweg, y Gernyweg, y Llydaweg ac wrth gwrs y Gymraeg, o ran hanes, strwythur a chymdeithaseg iaith. Mae'r argraffiad newydd hwn yn ffrwyth adolygu trylwyr ac, o ganlyniad, mae'r llyfr yn rhoi adroddiad cynhwysfawr a chyfamserol o'r ieithoedd Celtaidd modern a'u statws sosioieithyddol cyfredol, ynghyd â disgrifiadau deiacronig cyflawn o'r ieithoedd eu hunain.

Rhennir y gyfrol swmpus hon yn bedair rhan. Rhydd Rhan I ddisgrifiad teipolegol o'r ieithoedd Celtaidd ynghyd â thraethodau ar Gelteg Gyfandirol, Gwyddeleg Cynnar, Hen Gymraeg a Chymraeg Canol. Mae Rhannau II a III yn cynnwys disgrifiadau ieithyddol o'r ieithoedd Celtaidd cyfoes; mae Rhan II yn canolbwyntio ar yr ieithoedd Goedeleg, sef yr Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Fanaweg, tra bo Rhan III yn trafod yr ieithoedd Brythoneg, sef y Gymraeg, y Llydaweg a'r Gernyweg. Mae Rhan IV yn ymdrin â sefyllfa sosioieithyddol y pedair iaith Geltaidd gyfoes, gan gynnwys pennod ar statws yr ieithoedd adferedig, sef y Gernyweg a'r Fanaweg. Oherwydd cwmpas ac ehangder *testun The Celtic Languages*, penderfynwyd cyfyngu'r adolygiad hwn i'r rhannau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gadw mewn cof eu harwyddocâd i diwtoriaid Cymraeg i oedolion. Yn *The Celtic Languages* ceir y cyfraniadau canlynol sy'n ymdrin â'r Gymraeg:

1. 'Typological aspects of the Celtic languages' gan James Fife (tt. 3-21)
2. 'Old and Middle Welsh' gan David Willis (tt. 117-160)
3. 'Welsh' gan Gwen Awbery (tt. 357-426)
4. 'The sociolinguistic context of Welsh' gan Robert Owen Jones a Colin Williams (tt. 650-711)

1. 'Typological aspects of the Celtic languages' gan James Fife

Yma ceir amlinelliad o ddiben ac ystod y gyfrol, sef disgrifio'n fras strwythur a statws yr hyn a ystyrir yn ieithoedd Celtaidd. Dechreu'r awdur drwy ddweud nad yw'n gwbl glir beth sy'n gwneud iaith yn iaith Geltaidd. Mae'n ein hatgoffa fod y term 'Celtaidd' yn deillio o'r enw *Keltoi* a gâi ei ddefnyddio gan ddaearyddwyr Groegaidd yn y mileniwm cyntaf CC i ddisgrifio pobl oedd yn byw yng nghanolbarth Ewrop. Ymddengys fod y *Keltoi* yn bobl ryfelgar a weithiai haearn ac a ymledai drwy hyd a lled hanner deheuol y cyfandir. Fe'i cysylltir â diwylliannau godidog Hallstadt a La Tène. Adwaenai'r Rhufeiniaid y bobl hyn fel y *Galli*. Erbyn 390 CC roeddynt wedi meddiannu gogledd-ddwyrain yr Eidal ac wedi anrheithio Rhufain – rhywbeth nad anghofiai'r Rhufeiniaid fyth!

Er ei bod hi'n amlwg nawr mai'r un bobl oedd y *Keltoi* a'r *Galli*, ni chydabuwyd undod ethnig y Celtiaid yn y byd clasurol. (Mae hyd yn oed Iwl Cesar yn rhannu Gâl yn dri rhanbarth ieithyddol gwahanol.) Fodd bynnag, erbyn diwedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn y gorllewin, ymddengys fod yr ieithoedd Celtaidd wedi eu cyfyngu i ynysoedd Prydain ac Amrica (Llydaw). Yn hanesyddol rhennir Celteg yn Gelteg Cyfandirol a Chelteg Ynysol. Ond dadleua Fife ei bod hi'n anodd cyfiawnhau'r dosbarthiad hwn gan fod y Llydaweg, a gydnabyddir ei bod hi'n perthyn i'r gangen ynysol, wedi cael ei siarad ar gyfandir Ewrop am dros 1,500 o flynyddoedd. Serch hynny, rhennir Celteg Ynysol yn ddwy gangen, sef Goedeleg a Brythoneg; mae'r gangen gyntaf yn cynnwys yr Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a'r Fanaweg, tra bo'r ail yn cynnwys y Gymraeg, y Gernyweg a'r Llydaweg. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau grŵp hyn yw eu dewis rhwng 'p/b' a 'c' mewn rhai cyd-destunau ffonolegol. Fel arfer mae'r ieithoedd Brythoneg yn dewis 'p/b' tra bo'r ieithoedd Goedeleg yn dewis 'c', e.e. Cymraeg: **mab** /mɑ:b/, **pen** /pen/; Gaeleg yr Alban: **mac** /mɑ^hk/, **cean** /k^jaun/. (Mae'r dosbarthiad hwn yn anwybyddu'r geiriau sy'n dechrau ag 'c' sy'n gyffredin i'r ddau grŵp, e.e. **ci** /ki:/ a **cleddyf** /kle-ðiv/ Cymraeg a **cù** /ku/ a **claidheamh** /k^lɛ-əv/ Gaeleg yr Alban!). Mae un ddamcaniaeth yn dadlau fod y */k^w/ (Mae * yn dynodi fod y sain hon yn un ddamcaniaethol.) broto-Geltaidd wedi ei chadw yn yr ieithoedd Goedeleg ond wedi troi'n 'p' yn yr ieithoedd Brythoneg. Bid hynny fel y bo, ni all neb wadu tebygrwydd yr ieithoedd Celtaidd cyfoes o ran cystrawen, geirfa a morffoffonoleg, yn enwedig

y treigladau sy'n digwydd ar ddechrau geiriau o ganlyniad i'r cyd-destun gramadegol – nodwedd sy'n unigryw i'r ieithoedd Celtaidd.

2. 'Old and MiddleWelsh' gan David Willis

Rhydd Willis ddisgrifiad manwl iawn o ffonoleg, morffoleg a chystrawen y Gymraeg yn y cyfnod rhwng c. 750 OC hyd at c. 1400 OC. Gwelir sut y bu i Hen Gymraeg ddatblygu o'i mamiaith, y Frythoneg, drwy gyfres eang o newidiadau sain, llawer ohonynt yn digwydd yn y Llydaweg ac yn y Gernyweg hefyd. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys colli sillafau olaf, ad-drefnu hyd llafariad, symud yr acen bwys, ynghyd â chreu system o dreiglo cytseiniaid ar ddechrau geiriau. Mae ffonoleg Cymraeg Canol, ar y llaw arall, yn mynd drwy gyfnod o sefydlogrwydd cymharol, lle mae newydd-deb yn symud i feysydd morffoleg ac yn enwedig cystrawen.

Mae enghreifftiau o Hen Gymraeg yn brin iawn. Y cofnod cyntaf sydd gennym yw'r arysgrifiadau coffadwriaethol ar Garreg Tywyn (a gedwir yn eglwys Tywyn). Memorandwm Surexit, sef ychwanegiad i Lyfr St Chad a ysgrifennwyd yn Lladin ac a gedwir yn llyfrgell Eglwys Gadeiriol Caerlwythoed yn swydd Stafford, Lloegr, yw'r cofnod hynaf sydd gennym o ryddiaith Hen Gymraeg.

Dylid sôn hefyd am farddoniaeth y Cynfeirdd, sydd, er ei bod yn goroesi mewn llawysgrifau o'r Cyfnod Canol, yn cynnwys cerddi y mae'n rhaid eu bod wedi eu cyfansoddi yn ystod cyfnod Hen Gymraeg. O gyfnod Cymraeg Canol (c. 1150 ymlaen), mae gennym chwedlau a rhamantau, cyfreithiau, croniclau, bucheddau seintiau, gweithiau meddygol a gwyddonol yn ogystal â chorpws eang o farddoniaeth gaeth. I'r cyfnod hwn y perthyn *Pedeir Keinc y Mabinogi*, *Llyfr Coch Hergest*, *Culhwch ac Olwen*, etc.

Mae'r adran hon yn ddefnyddiol iawn i'r sawl sydd am wybod mwy am ddatblygiad cynnar y Gymraeg a sut y datblygodd yn un o ieithoedd cyfoethocaf Ewrop yn yr Oesoedd Canol.

3. 'Welsh' gan Gwen Awbery

Yma ceir disgrifiad cynhwysfawr o strwythur Cymraeg cyfoes, gan ystyried ffonoleg, gramadeg a geireg yr iaith fel y'i siaredir heddiw. Cydnebydd yr awdur y gellir disgwyl cryn amrywiaeth yn y defnydd o'r iaith ymhlith y 500,000+ o bobl sy'n siarad yr iaith ledled Cymru o ran daearyddiaeth, cywair a chefnidir cymdeithasol, ac mae'r erthygl hon yn gallu bod o gymorth i diwtoriaid ail iaith sy'n ymbalfalu i ateb cwestiynau gramadegol gan y dysgwyr chwilfrydig hynny sydd â gwybodaeth o ramadeg y Saesneg ac ieithoedd eraill.

Ffonoleg

Yma disgrifir seiniau arwyddocaol neu ffonemau'r iaith. Gwneir hyn mewn ffordd draddodiadol drwy ddefnyddio siartiau llafariad sgematig yn achos y llafariad a'r deuseiniaid a disgrifiadau cynanol yn achos y cytseiniaid. (Byddai gwybodaeth fras o'r Wyddor Seineg Ryngwaladol (International Phonetics Alphabet [IPA]) yn helpfawr i'r darllenwr.) O safbwynt ffonoleg, diddorol nodi i'r awdur ddewis ystyried y drawolen ddi-lais /t̪/ fel allffon o'r drawolen leisiol /t/ yma, a hynny er i statws ffonemig /t̪/ gael ei ddangos mewn sawl astudiaeth dafodieithol dros y blynyddoedd ac er iddi gael ei nodi fel llythyren o'r iawn ryw yn yr Wyddor Gymraeg.

Orgraff

Yna ceir esboniad cryno o sut y mae ffonemau'r Gymraeg yn ymddangos yn yr iaith ysgrifenedig. Honnir nad yw'r orgraff yn gwahaniaethu rhwng hyd llafariad, ac y gall yr un symbol gynrychioli sain hir neu sain fer, e.e. gall 'e' gynrychioli'r sain hanner agored flaen /e/ yn **pen** /pen/ a'r sain hanner caeedig /e/ yn **te** /te:/, ond wedyn eir ymlaen i nodi y gall yr acen grom gael ei defnyddio mewn geiriau unsill i wahaniaethu ystyr: **tŵr** /tu:r/ a **twr** /tor/.

Morffoffonoleg

Fel y disgwylir mewn erthygl ar strwythur y Gymraeg, rhoir cryn dipyn o le ac amser i drafod y treigladau. Cydnabyddir fod y treigladau yn pontio'r agendor rhwng maes ffonoleg a maes morffoleg, a bathwyd term newydd i'w ddisgrifio, sef morffoffonoleg. Trinnir y treigladau cydnabyddedig yn y

dull traddodiadol, ond cydnebydd yr awdur newid llafariad mewnol fel ffurf ar forffoffonoleg hefyd, ac eir ymlaen i esbonio'r rheol canoli, h.y. 'w' /u:/ ac 'y glir' /i:/; /i:/ mewn geiriau unsill yn troi'n 'y dywyll' /ə/ pan ychwanegir sillaf at ddiwedd y gair, e.e. **tŵr** /tu:r/, **tyrru** /təri/; **dyn** /di:n/, **dynion** /dɛnjon/. Fodd bynnag, nid oes sôn am 'dreigladau' eraill fel, er enghraifft, ffurfio'r lluosog drwy newid llafariad neu ddeusain, e.e. **troed** /troid/ a **traed** /traid/; **bachgen** /baχkɛn/ a **bechgyn** /beχkin/; **carreg** /kareg/ a **cerrig** /kerig/; **tŷ** /ti:/ a **tai** /tai/.

Morffoleg a Chystrawen

Yn yr adrannau hyn, trafodir, ymhlith pethau eraill, natur ffurfdroadol berfau'r Gymraeg. Trafodir trefn geiriau mewn brawddegau Cymraeg (Cydnebydd yr awdur mai iaith VSO [BERF + GODDRYCH + GWRTHRYCH] yw'r Gymraeg.), gan dynnu sylw arbennig at ferfenwau a'r gystrawen gwmpasog, ynghyd â'r stad oddefol ac is-gymalau enwol a pherthynol. Yn ogystal mae'r awdur yn neilltuo lle i drafod y math o Gymraeg gwneud a elwir yn Gymraeg Byw. Dylai hyn fod o ddiddordeb mawr i diwtoriaid Cymraeg i oedolion.

4. 'The sociolinguistic context of Welsh' gan Robert Owen Jones a Colin Williams

Adroddiad cynhwysfawr iawn o hanes a chyd-destun sosioieithyddol y Gymraeg a geir yma. Dechreu'r awduron drwy ddweud ei bod hi'n wyrth fod y Gymraeg wedi goroesi hyd heddiw. Yn ôl cyfrifiad 2001, mae 582,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac erbyn hyn, dan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae mwy o adnoddau'n cael eu rhoi i gynnal a chadw'r iaith nag erioed o'r blaen. Wrth gwrs, rhywbeth newydd yn hanes yr iaith yw'r gefnogaeth hon, a thros y canrifoedd, mae'r Gymraeg wedi bod dan fygythiad.

Eir ymlaen i drafod yn fras bob cyfnod yn hanes yr iaith, o Frwydr Caer yn 605, pryd y torrwyd y cysylltiad rhwng y Cymry yn y gorllewin a Brythoniaid yr Hen Ogledd, drwy'r Oesoedd Canol a chyfieithu'r Beibl yn 1588, ysgolion cylchynol Gruffydd Jones yn y 18^{fed} ganrif hyd at 'Frad y Llyfrau Gleision' yng nghanol y 19^{eg} ganrif. Ond mae'r awduron ar dir mwy cadarn erbyn iddynt gyrraedd ail hanner y 19^{eg} ganrif pryd y mae'r ystadegau perthnasol yn fwy dibynadwy a chyson.

Mae'r pictiwr a roir o hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yn un brawychus: yn 1881 amcangyfrifir fod 80% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg; erbyn 1901 roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 50%. Y rheswm pennaf am hyn, mae'n debyg, oedd y mewnfudo i dde Cymru ddiwydiannol gan siaradwyr di-Gymraeg ar y fath raddfa fel na allai'r cymunedau Cymraeg eu hiaith eu cymathu. Ymhellach, digwyddai hyn mewn cyfnod y câi'r Saesneg ei sefydlu fel iaith addysg a llywodraeth leol drwy Gymru. Parhaodd y duedd drychinebus hon drwy'r 20^{fed} ganrif; erbyn 1981 dim ond oddeutu 20% o boblogaeth Cymru oedd yn gallu siarad yr iaith – y gwrthwyneb i'r sefyllfa honedig yn 1881.

Ceir disgrifiad a dadansoddiad ystadegol manwl o hanes yr iaith yn ail hanner yr 20^{fed} ganrif, gan ddechrau â darlith enwog Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*, a ddarlledwyd gan y BBC yn 1962, drwy ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn y chwedegau a'r seithdegau, y frwydr i sefydlu S4C yn 1982, ac effaith asiantaethau cyhoeddus a gwirfoddol ar gwrs yr iaith hyd at heddiw.

Byrdwn y traethawd hwn yw nad ydym yn gallu eistedd ar ein rhwyfau. Er gwaethaf y buddugoliaethau a enillwyd ers y chwedegau o ran statws a bri, mae mewnfudo i'r 'Fro Gymraeg' yn cyflymu ar yr un amser y mae pobl ifainc yn ymadael i geisio cael gwaith yng Nghaerdydd ac yn ninasoedd Lloegr a thrwy hynny'n bygwth hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Er gwaethaf cymhwysedd proffesiynol asiantaethau cynllunio ieithyddol, yn enwedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg, anodd i iaith leiafrifol oroesi fel sgil neu ffenomen rhwydweithio cymdeithasol yn unig. Pwysleisia'r awduron fod rhaid i'r Gymraeg fod yn gyfrwng cyfathrebol naturiol y cymunedau y'i siaredir ynddynt. Credant fod dyfodol yr iaith yn dibynnu ar gynllunio gofalus ar bob lefel – addysgol, economaidd, cymdeithasol, sefydliadol a diwylliannol, ac yn anad dim ar benderfyniad y siaradwyr Cymraeg eu hunain.

Casgliadau

The Celtic Languages yw'r gyfrol ddiwethaf mewn cyfres o weithiau academiaidd sy'n rhoi llwyfan ryngwladol i'r ieithoedd Celtaidd, yn enwedig y Gymraeg. Mae'r golygyddion wedi sicrhau cyfraniadau gan ysgolheigion o'r radd flaenaf. Mae'r llyfr yn gam mawr tuag at normaleiddio'r Gymraeg a'i chyflwyno i gynulleidfa newydd ac ehangach na'r un arferol, sef darlithwyr a myfyrwyr adrannau Cymraeg ein prifysgolion. Credaf y bydd y llyfr o fudd i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion sy'n dymuno ehangu eu gwybodaeth am hanes a strwythur yr iaith fel y gallant deimlo'n fwy hyderus a gwybodus wrth geisio ateb cwestiynau dysgwyr chwilfrydig. Mae'r adrannau ar y Gymraeg yn rhoi cefndir strwythurol, hanesyddol a sosioieithyddol y Gymraeg, tra bo'r adrannau ar yr ieithoedd Celtaidd eraill yn ein galluogi i werthfawrogi'r Gymraeg mewn cyd-destun Celtaidd ac Ewropeaidd. Yr unig anfantais yw pris y llyfr. Oherwydd mai rhifyn cyfyngedig ydyw, mae'n costio £175! Y peth gorau i'w wneud felly yw cael benthyc copi o'r llyfrgell leol, a gobeithio na fydd neb arall ei angen nes ichi gwblhau ei ddarllen.

Phylip Brake
Darlithydd
Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru
Gorffennaf 2010